26 Tachwedd 2018

Helo, a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma

Yn WCVA rydym yn benderfynol o wneud gwahaniaeth, ac yn falch iawn o rannu'r hyn rydym yn ei wneud i'n helpu i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer trydydd sector ffyniannus yng Nghymru. Lansiwyd ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2017-18 yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'n Darlith wythnos diwethaf, ac mae e' bellach ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan neu i'w wylio ar ffurf animeiddiad byr. Cofiwch fwrw golwg arno a rhoi gwybod i ni beth rydych yn ei feddwl!

Cynhelir Diwrnod Gwirfoddoli Rhyngwladol ar 5 Rhagfyr bob blwyddyn ac mae'n gyfle ardderchog i ddathlu effaith a gwerthoedd gwirfoddoli o amgylch y byd. Y thema eleni yw Meithrin Cymunedau Cryf (thema agos at ein calonnau), gan ganolbwyntio'n arbennig ar wirfoddolwyr cymunedol lleol - sy'n cyfrannu at allu cymunedau i ymdopi â thrychinebau naturiol, pwysau economaidd ac ysgytiadau gwleidyddol. Os oes gennych straeon i'w rhannu fe fyddem yn fwy na pharod i'w cyhoeddi, neu beth am drydar ein tîm gwirfoddoli @VolWales gan ddefnyddio #IVD2018 #cymunedaucryf.

Diolch am ddarllen, fe welwn ni chi wythnos nesaf.

Gwirfoddoli

Gwirfoddoli rhyngwladol ac IVD 2018

Efallai fod gan eich mudiad ddiddordeb mewn cynnwys gwirfoddolwyr o dramor, neu o bosib fod gennych fwy o ddiddordeb mewn rhoi cyfle i bobl ifanc fynd dramor i wirfoddoli. Os felly, bydd rhai o'r datblygiadau newydd hyn o ddiddordeb i chi.

Gwirfoddoli i drechu unigrwydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori, 'Cysylltu Cymunedau – Mynd i'r Afael ag Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol', a bydd WCVA yn ymateb iddi.

Cyffredinol WCVA

Adroddiad Blynyddol WCVA 2017-18

Yn WCVA rydym yn benderfynol o wneud gwahaniaeth - cymerwch olwg ar rai o'r pethau rydym wedi bod yn eu gwneud i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer trydydd sector Cymru

Ymladd stigma iechyd meddwl gyda The Arts Factory

I nodi diwrnod ymwybyddiaeth o iechyd meddwl fis diwethaf, aeth rai o dîm Cynhwysiant Gweithredol draw i'r Ffatri Gelfyddydau (Arts Factory) yng Nglynrhedynog, sy'n cynnal prosiect Cynhwysiant Gweithredol, a ariennir drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, o'r enw 'Newid Pobl, Newid Bywydau'.

Cyffredinol trydydd sector

Dewch i gwrdd â'r arloeswyr sydd am wella gwasanaethau cyhoeddus Cymru

Mae grantiau gwerth cyfanswm o £150,000 wedi'u dyfarnu i saith mudiad yng Nghymru drwy Arloesi i Arbed.

Cyllid

Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi – Prosiect o Arwyddocâd Cenedlaethol

Mae WCVA yn falch iawn o gyhoeddi lansiad y Grant o Arwyddocâd Cenedlaethol yn y Cynllun Cymunedau Gwarediadau Tirlenwi, a hynny ers dydd Llun 26ain Tachwedd.

Grantiau Cynnwys Pobl Hŷn gan Sefydliad Elusennol y Seiri Rhyddion

Gall elusennau lleol a chenedlaethol sy'n cefnogi pobl hŷn dros 50 mlwydd oed sydd dan anfantais ac yn agored i niwed ymgeisio am gyllid, pan fydd y rowndiau cyllido nesaf yn agor yn 2019.

Arian ar gael i hosbisau

Mae cyfanswm o £300,000 ar gael i ddatblygu cymorth mewn profedigaeth i bobl leol nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol.

Cyllid Ymddiriedolaeth Austin and Hope Pilkington ar gyfer 2019

Bydd rownd gyllido 2019 yn canolbwyntio ar fudiadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Hyfforddiant a digwyddiadau

Dylunio a rhoi cyflwyniadau sy'n ennyn diddordeb

Gwnewch i'ch cyflwyniadau ddisgleirio – dewch i ddysgu sut i roi sglein ar eich cyflwyniadau.

Cyflwyniad i GDPR i'r trydydd sector

GDPR i'r trydydd sector – cyflwyniad

Polisi a gwleidyddiaeth

Mwy o arian i awdurdodau lleol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi arian ychwanegol i awdurdodau lleol fel rhan o'i Chyllideb ar gyfer 2019-20.

Ymgynghoriadau'r wythnos hon

Edrych ar ddyfodol Trafnidiaeth Cymru.

This week's updates from WCVA

26 November 2018

Hello and welcome to this week's newsletter

At WCVA we are focused on making a difference, and love sharing what we're doing to help us achieve our vision of a thriving third sector in Wales. Our Annual Report for 2017-18 was launched at our Annual General Meeting and Lecture last week, and is now available to read on our website or to watch as an animated summary. Please have a look and let us know what you think!

International Volunteers Day falls annually on 5 December and is a great chance to celebrate the impact and values of volunteering worldwide. The theme this year is Building Resilient Communities (a theme close to our hearts) with a special focus on local community volunteers - who contribute to making their communities more resilient against natural disasters, economic stresses and political shocks. If you have stories to share we will be happy to share them, or why not tweet our volunteering team @VolWales using #IVD2018 #resilientcommunities.

Thanks for reading, we'll see you again next week.

Volunteering

International volunteering and IVD 2018

Your organisation may be interested in involving volunteers from overseas, or maybe you are more interested in enabling young people to volunteer overseas. If so, one or other of these new developments may be of interest to you.

Volunteering to tackle loneliness

A Welsh Government consultation document, ‘Connected Communities: Tackling Loneliness and Social isolation’, has been published and WCVA will be making a response.

WCVA general

WCVA Annual Report 2017-18

At WCVA we are focussed on making a difference - have a look at some of the things we've been doing to help us achieve our vision for the third sector in Wales

Fighting mental health stigma with The Arts Factory

For mental health awareness day last month, some members of the Active Inclusion team visited the Arts Factory in Ferndale, who are running an Active Inclusion project, funded by the European Social Fund, called 'Changing People, Changing Lives'.

Third sector general

Meet the innovators set to improve Welsh public services

Grants totalling £150,000 have been awarded to seven organisations in Wales through Innovate to Save.

Funding

Landfill Disposals Tax Community Scheme (LDTCS) – Nationally Significant Project

WCVA is delighted to announce the launch of the Nationally Significant Grant for the Landfill Disposals Community Scheme as of Monday 26th November.

Masonic Charitable Foundation Later Life Inclusion Grants

Local and national charities supporting disadvantaged and vulnerable older people over 50 years old can apply for funding, with the next rounds of funding opening in 2019.

Funding available for hospices

A total of £300,000 is available to develop bereavement support for underrepresented local people.

Austin and Hope Pilkington Trust funding for 2019

The 2019 round of funding will focus on organisations working with children and young people.

Training and events

Designing and delivering engaging presentations

Make your presentations matter – learn how to design and deliver dynamic presentations with ease.

An introduction to GDPR for the third sector

GDPR for the third sector – an introduction

Policy and politics

More funding for local authorities

Welsh Government has announced extra funding for local authorities as part of its 2019-20 Budget.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

This week's consultations

Looking at the future of Transport for Wales.